Canllaw Ychwanegol ar gyfer

# Rheoliadau Ymrwymiadau Masnachu Teg (Llaeth) 2024

Fersiwn 1.0

Cyhoeddwyd: 8fed Gorffennaf 2024

# Cynnwys


Gwybodaeth Gefndir ........ 3
Contractau Prynu Llaeth (Rhannau 2 a 3 o FDOM24) ........ 6
Y gofyniad i ddefnyddio contract prynu llaeth ysgrifenedig ........ 6
Fformat a hyd contractau prynu llaeth ........ 7
Prisio a Thalu (Rhan 4 FDOM24) ........ 8
Telerau talu ........ 8
Strwythurau talu ........ 8
Contractau pris sefydlog ........ 8
Contractau prisiau amrywiol ........ 9
Prisiau Haenog ........ 10
Esemptiadau ........ 11
Cyfeintiau (Rhan 5 o'r FDOM24) ........ 12
Amrywiol (Rhan 6 o'r FDOM24) ........ 13
Casglu llaeth ........ 13
Force Majeure ........ 13
Hysbysiadau o dan gontract prynu llaeth ........ 13
Amrywio'r Telerau ........ 14
Datrys Anghydfod (Rhan 7 o FDOM24) ........ 15
Terfynu (Rhan 8 o FDOM24) ........ 16
Cyfnod ailfeddwl ........ 16
Terfynu contractau bytholwyrdd neu sefydlog o 12 mis neu fwy ........ 16
Terfyniad gan y prynwr ........ 16
Terfyniad ar gyfer contractau sefydlog o lai na 12 mis ........ 16
Rhestr Termau ........ 18

## Gwybodaeth Gefndir

1. Cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 bwerau i reoliadau gael eu creu sy'n diogelu cynhyrchwyr yn y DU rhag triniaeth annheg yn y gadwyn gyflenwi.
2. Yn dilyn hyn, rydym wedi ymgysylltu â sawl sector yn y diwydiant amaethyddiaeth i'n helpu i ddeall lle mae angen diwygiadau yn y gadwyn gyflenwi. Yn y sector llaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ym Mehefin 2020 yn gofyn barn cynhyrchwyr a phrynwyr, yn gofyn a allai rheoliadau newydd wella tegwch a thryloywder.
3. Ar ôl yr ymgynghoriad, dangosodd yr ymatebion bod angen hyn, ac mae'r ymgysylltiad â'r diwydiant wedi parhau ar bob lefel i greu cynigion sy'n gweithio. Rydym wedi ceisio diogelu a hyrwyddo arferion sy'n dda i gynhyrchwyr, prynwyr a defnyddwyr, ac rydym ond wedi cynnig rheoliadau pan fydd posibilrwydd o arferion annheg.
4. Y Rheoliadau Ymrwymiadau Masnachu Teg (Llaeth) 2024 ("FDOM24") yw'r defnydd cyntaf o'r pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i osod rhwymedigaethau ar brynwyr busnes cynhyrchion amaethyddol mewn cysylltiad â chontractau a wneir ganddynt. Bydd FDOM24 yn dod i rym yn y DU ar 9 Gorffennaf 2024, a byddant yn berthnasol i bob contract newydd a wneir ar gyfer prynu llaeth gan gynhyrchwr. Bydd cyfnod pontio o 12 mis ar gyfer cytundebau presennol, ac ar ôl hynny bydd angen i bob contract o'r fath gydymffurfio â FDOM24 erbyn 9 Gorffennaf 2025.

## Crynodeb

5. Bwriedir i FDOM24 wneud contractau prynu llaeth y cytunir arnynt yn y diwydiant llaeth yn fwy teg a chlir. Maent yn berthnasol i gontractau i brynu llaeth buwch ac maent yn cael eu trefnu'n uniongyrchol rhwng "prynwyr" (gan gynnwys proseswyr llaeth neu gynhyrchwyr cynnyrch llaeth) a "chynhyrchwyr" (gan gynnwys ffermwyr godro) ledled y DU. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y ddau barti mewn contract prynu llaeth yn gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau ymlaen llaw. I gyflawni hyn, mae'n ofynnol i gontractau i brynu llaeth buwch fod yn ysgrifenedig yn awr, wedi'u llofnodi ac yn cynnwys o leiaf y canlynol:

   a) Telerau clir ar brisio**,** gan naill ai gynnig pris penodedig a delir i gynhyrchwr fesul uned o laeth a gyflenwir (pris sefydlog) neu fanylion am y ffyrdd y pennwyd y pris (pris amrywiol). Pan ddefnyddir pris amrywiol, mae FDOM24 yn caniatáu i gynhyrchwyr wneud cais am esboniad ysgrifenedig o sut y pennwyd y pris i sicrhau bod y dull prisio y cytunwyd arno wedi'i ddefnyddio.

   b) Y gwaharddiad ar newidiadau unochrog i'r contract prynu llaeth. Gwyddom y bydd angen i fusnesau addasu eu trefniadau o bryd i'w gilydd, ond

mae'n rhaid i'r cynhyrchydd a'r prynwr (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol) gytuno ar hyn.

c) Telerau clir ar hyd contractau prynu llaeth a'r broses derfynu.

   a. Mae'n rhaid i gontractau prynu llaeth gynnwys dyddiad dechrau cyflenwi, os yw hyn yn wahanol i'r diwrnod y llofnodir y contract. O'r pwynt hwn, mae'n rhaid iddynt amlinellu hyd y cyfnod cyflenwi. Gall hyn fod yn gyfnod sefydlog neu ar sail fytholwyrdd.

   b. Bydd rheolau terfynu yn sicrhau bod gan gynhyrchwyr sefydlogrwydd, gyda chyfnod rhybudd o 12 mis o leiaf, i brynwyr derfynu contract prynu llaeth. Ar yr un pryd, ni ddylai fod yn ofynnol i gynhyrchwyr gyflwyno cyfnod rhybudd o fwy na 12 mis i derfynu'r contract prynu llaeth. Mae rhai eithriadau i hyn, a nodir yn yr adran "terfynu ar unwaith".

ch) Proses datrys anghydfod er mwyn i brynwyr a chynhyrchwyr allu codi materion sy'n gysylltiedig â'r berthynas gyflenwi. Os bydd angen, gellir uwchgyfeirio anghydfodau heb eu datrys ynghylch a gydymffurfiwyd â FDOM24 drwy'r broses orfodi sydd wedi'i chynnwys yn FDOM24. Gan weithredu ar ran Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA) sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau a bydd yn ystyried pob cwyn berthnasol yn deg a diduedd (gweler canllawiau statudol Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol am ragor o fanylion am orfodi).

d) Mae'n rhaid i bob contract gynnwys term penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr weithredu'n ddidwyll mewn cysylltiad â'r contract.

**Noder:** Gallai peidio â chyflawni goblygiadau cytundebol gynrychioli torri contract ond nid mynd yn groes i FDOM24. Felly, ceisiwch gyngor cyfreithiol annibynnol ar wahân yn y sefyllfa hon oherwydd bydd ASCA ond yn gallu delio ag achosion o dor-rheol i FDOM24.

Pwysig:

Fel erioed, dylai busnesau geisio eu **cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain ynghylch cydymffurfio â FDOM24 ac anghydfodau cytundebol posibl.** Fodd bynnag, bwriedir i'r canllaw hwn helpu'r diwydiant i ddeall y rheolau newydd.

## Contractau Newydd a Phresennol

6. O 9 Gorffennaf 2024 pan ddaw FDOM24 i rym, mae'n rhaid i **bob** contract llaeth **newydd** gydymffurfio â'r rheolau hyn. I sicrhau bod gan y diwydiant amser i addasu'r trefniadau presennol, mae cyfnod pontio o 12 mis hyd at 9 Gorffennaf 2025 ar gyfer contractau prynu llaeth a oedd eisoes ar waith cyn i FDOM24 ddod i rym er mwyn cydymffurfio. Dim ond os bydd llaeth yn parhau i gael ei gyflenwi o dan y contractau prynu llaeth hynny ar ôl 9 Gorffennaf 2025 y bydd angen i'r contractau presennol hynny gydymffurfio.
7. Er ei bod fel arfer yn glir beth sy'n cynrychioli contract 'newydd' neu 'bresennol', mae rhai achosion pan nad yw hyn yn glir o bosibl. Er ein bod yn argymell i bob parti geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain, gallai statws contractau yn ystod y cyfnod pontio fod fel a ganlyn:

    a) **Senario 1**
    **Contractau prynu llaeth newydd yr ymrwymwyd iddynt ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2024**
    Pan fydd cynhyrchydd a phrynwr yn ymrwymo i gytundeb cyflenwi newydd ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2024, bydd angen iddynt gytuno ar gontract yn ysgrifenedig sy'n cyflawni gofynion FDOM24.

    b) **Senario 2**
    **Contractau prynu llaeth presennol sy'n parhau'n ddigyfnewid ar ôl 9 Gorffennaf 2024**
    Pan fydd gan y partïon gontract prynu llaeth eisoes mewn grym cyn 9 Gorffennaf 2024, gallent barhau i ddarparu'r cyflenwadau o dan y contract hwnnw hyd at 9 Gorffennaf 2025, ac ar ôl y pwynt hwn, bydd angen i'r contract gydymffurfio â'r FDOM24. Rydym yn rhagweld y bydd y diwydiant yn defnyddio'r cyfnod pontio hwn i sicrhau bod eu contractau presennol yn cyflawni gofynion FDOM24. Erbyn 9 Gorffennaf 2025 mae'n rhaid i'r holl gontractau prynu llaeth gydymffurfio.

    c) **Senario 3**
    **Contractau prynu llaeth presennol sy'n newid rhwng 9 Gorffennaf 2024 a 9 Gorffennaf 2025**
    Mae'n bosibl y gallai amrywiadau a wneir i gontractau prynu llaeth presennol ffurfio contract newydd a fydd yn ei gynnwys o fewn cwmpas y gofynion yn FDOM24 cyn 9 Gorffennaf 2025**.** Felly rydym yn argymell y dylai pob parti **geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain** ynghylch a fydd unrhyw newidiadau a wneir i'r trefniant cyflenwi yn creu contract prynu llaeth newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y naill ochr a'r llall yn glir ynghylch a fydd y contract prynu llaeth presennol yn parhau i weithredu neu ei fod, mewn gwirionedd, wedi'i ddiddymu a'i ddisodli. O ddiwedd y cyfnod pontio, **9 Gorffennaf 2025,** bydd yr holl gontractau prynu llaeth wedi'u cwmpasu gan delerau FDOM24.

## Contractau Prynu Llaeth (Rhannau 2 a 3 o FDOM24)

### Y gofyniad i ddefnyddio contract prynu llaeth ysgrifenedig

8. Gwyddom fod gan lawer o gynhyrchwyr a phrynwyr llaeth gontractau prynu llaeth ysgrifenedig eisoes. Rydym yn ei wneud yn ofyniad i bob contract prynu llaeth yr ymrwymir iddo ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2024 fod yn ysgrifenedig, er mwyn cyflawni mwy o dryloywder. Mae'r gofyniad i gael contract prynu llaeth ysgrifenedig yn berthnasol hyd yn oed pan fydd un neu'r ddau barti yn fodlon ar gontract llafar.
9. I gynhyrchwyr a phrynwyr sydd â threfniant cyflenwi presennol yr ymrwymwyd iddo ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2024, mae'n rhaid bod ganddynt gontract prynu llaeth ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gofynion FDOM24 erbyn 9 Gorffennaf 2025. Gellir cyflawni hyn drwy amrywio telerau contract prynu llaeth ysgrifenedig presennol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio neu drwy derfynu unrhyw gontractau prynu llaeth presennol nad ydynt yn cydymffurfio ac ymrwymo i un newydd. Pan na fydd contract prynu llaeth ysgrifenedig eisoes ar waith, **bydd yn rhaid i bob parti gytuno a llofnodi contract prynu llaeth ysgrifenedig** sy'n cydymffurfio.
10. Cynghorir partïon i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol i sicrhau bod eu contractau prynu llaeth yn cydymffurfio â FDOM24 oherwydd gellir cyflawni cydymffurfiaeth mewn gwahanol ffyrdd, yn ddibynnol ar drefniadau cyflenwi presennol:
    a) **Contract Ysgrifenedig Presennol sy'n cydymffurfio'n llawn â'r FDOM24**
    Pan fydd contract ysgrifenedig sy'n cydymffurfio'n llawn eisoes ar waith nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r contract.
    b) **Contract Ysgrifenedig Presennol sy'n cydymffurfio'n rhannol â FDOM24**
    Pan fydd contract ysgrifenedig sy'n cydymffurfio'n rhannol eisoes ar waith cyn 9 Gorffennaf 2024 mae'n rhaid i'r partïon gytuno ar gontract sy'n cydymffurfio'n llawn yn ysgrifenedig erbyn 9 Gorffennaf 2025. Gellir cyflawni hyn drwy gytuno ar ddiwygiadau i'r contract presennol yn ysgrifenedig, neu drwy ymrwymo i gontract newydd sy'n cydymffurfio'n llawn.
    c) **Contract Llafar/Anffurfiol Presennol.**
    Pan fydd cytundeb cyflenwi llafar ar waith cyn 9 Gorffennaf 2024 mae'n rhaid cytuno a llofnodi contract ysgrifenedig newydd sy'n cydymffurfio â FDOM24 erbyn 9 Gorffennaf 2025.
    ch) **Dim contract presennol**

Pan ymrwymir i gontract prynu llaeth newydd ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2024, mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig a chydymffurfio'n llawn â FDOM24.

## Fformat a hyd contractau prynu llaeth

11. Mae'n rhaid i'r holl bartïon **lofnodi** contract ysgrifenedig er mwyn cydymffurfio â'r FDOM24. Gall hyn naill ai fod yn llofnod ar ddogfen ffisegol neu ddogfen ddigidol gyda llofnod electronig. Caniateir y mathau canlynol o gontractau:

    a) **Contractau Bytholwyrdd**
    Gall y contractau hyn redeg yn barhaus hyd nes y bydd un o'r partïon yn penderfynu ei derfynu. Mae'n rhaid i'r weithdrefn ar gyfer terfynu'r contract gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer terfynu a nodir yn FDOM24.

    b) **Contractau Cyfnod Sefydlog**
    Mae'n rhaid i'r contractau hyn fod â phwynt mewn amser wedi'i gytuno ymlaen llaw pan fyddant yn dod i ben. Rhaid i'r ddau barti gytuno ar y ffordd y caiff hyn ei strwythuro a gall fod yn ddyddiad penodol yn y dyfodol pan ddaw'r cytundeb i ben neu am gyfnod o amser y bydd y cytundeb yn parhau yn ei le.

12. Mae'n rhaid i'r contract nodi a yw'n gontract cyfnod sefydlog neu'n gontract bytholwyrdd. Mae'n rhaid iddo nodi hefyd y dyddiad y bydd y goblygiad i gyflenwi llaeth yn dechrau os yw'r dyddiad hwnnw'n wahanol i'r dyddiad y llofnodir y contract.

# Prisio a Thalu (Rhan 4 FDOM24)

## Telerau talu

13. O dan FDOM24, mae angen i gontractau nodi sut a phryd y gwneir taliadau i sicrhau eglurder er budd cynhyrchwyr. Mae'n rhaid i bob contract gynnwys y dull talu ac amlder y taliadau, ac mae'n rhaid iddynt nodi:

    a) Dyddiad y taliad cyntaf.

    b) Amlder y taliadau.

    c) Y dull y gwneir y taliad.

## Strwythurau talu

14. Mae'r FDOM24 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau prynu llaeth ddefnyddio:

    a) pris sefydlog, neu

    b) pris amrywiol,

    c) neu gyfuniad o'r ddau.

15. Mae "pris sefydlog" yn bris a nodir yn y contract prynu llaeth, a fynegir fesul uned o laeth neu gyfansoddion llaeth ac a fydd yn cael ei dalu gan y prynwr i'r cynhyrchydd am laeth a gyflenwir o dan y contract.

16. Mae "pris amrywiol" yn bris fesul uned o laeth neu gyfansoddion llaeth nad yw'n cael ei bennu ar y pwynt y llunnir y contract prynu llaeth ond caiff ei bennu yn unol â, neu drwy gyfeirio at, ffactorau a nodir yn y contract prynu llaeth.

## Contractau pris sefydlog

17. Mae pris sefydlog yn union bris a nodir yn y contract sydd i'w dalu i'r cynhyrchydd fesul uned o laeth. Mae hyn yn golygu mynegi gwerth ariannol sengl, ar gyfer pob mesur o laeth y cytunwyd arno i'w gyflenwi.

18. Gellir defnyddio mwy nag un pris sefydlog yn ystod oes y contract, ond os yw'r pris sefydlog i newid yn ystod cyfnod y contract, rhaid i'r contract nodi'r dyddiadau dechrau a gorffen pan fydd pob un o'r prisiau sefydlog yn berthnasol.

## Amodau Eithriadol y Farchnad ar gyfer Prisiau Sefydlog

19. Hyd yn oed pan fydd pris sefydlog wedi'i gytuno, gallai amodau eithriadol y farchnad ei gwneud yn ofynnol i adolygu'r pris yn ystod y cytundeb. Er mwyn diogelu'r ddau barti a sicrhau bod hyn yn digwydd yn deg, mae'n rhaid i'r contract nodi gweithdrefn ar gyfer gallu adolygu pris sefydlog pan fydd

amodau eithriadol yn y farchnad. Rhaid i’r contract nodi’n glir hefyd beth sy’n cynrychioli amodau eithriadol yn y farchnad lle gellir adolygu pris sefydlog.

20. Mae’n rhaid i’r weithdrefn ar gyfer adolygu prisiau ddarparu bod rhaid i'r prynwr, pan fydd y cynhyrchydd yn gwneud cais am hynny, wahodd y cynhyrchydd i gynnal trafodaeth ar y newidiadau pris arfaethedig o fewn 30 diwrnod.

21. Fel rhan o’r broses hon, rhaid i’r ddau barti wedi hynny adolygu’r pris sy’n daladwy ac ystyried a oes angen newid. **Pan fydd cytundeb** rhwng partïon, mae’n rhaid diwygio’r contract yn ysgrifenedig i adlewyrchu’r pris newydd. Cynghorir partïon y contract i gynnwys darpariaethau sy’n nodi beth fydd yn digwydd os na ellir cael cytundeb.

## Contractau prisiau amrywiol

22. Mae contractau prisiau amrywiol yn gyffredin yn y diwydiant. Fodd bynnag, rydym eisiau gwneud yn siŵr bod cynhyrchwyr a phrynwyr yn glir ynghylch y ffactorau a ddefnyddir i bennu pris llaeth a’u bod yn cytuno ar y rhain ymlaen llaw.

23. Pan fydd contract prynu llaeth yn defnyddio pris amrywiol (naill ai mewn cyfuniad â phris sefydlog ai peidio) mae’n rhaid gwneud hynny yn unol â’r gofynion canlynol:

    a) mae’n rhaid i’r contract nodi’r ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo pris y llaeth (er enghraifft, fel rhan o fformwla), neu y mae’n rhaid i’r prynwr roi sylw dyledus iddynt wrth bennu pris y llaeth.

    b) mae’n rhaid i’r contract amlinellu’r cyfnodau o amser y bydd pob set o ffactorau yn berthnasol iddynt, gan gynnwys y dyddiadau dechrau a gorffen. Gellir naill ai cael un set o ffactorau sy’n berthnasol ar gyfer hyd cyfan y contract, neu wahanol ffactorau sy’n berthnasol ar wahanol adegau.

    c) mae’n rhaid i gontract gynnwys gwybodaeth am ba mor aml y bydd y pris yn cael ei bennu, na ddylai fod yn amlach na misol ond dim llai na phob 3 mis.

    ch) pan fydd unrhyw rai o’r ffactorau a ddefnyddir i bennu’r pris yn wybodaeth gyfrinachol nad yw’r prynwr yn dymuno ei datgelu i’r cynhyrchydd, yna mae’n rhaid i’r contract gynnwys gweithdrefn ddilysu trydydd parti hefyd lle gall cynhyrchydd gyfeirio’r esboniad o sut y cafodd y pris ei bennu at berson annibynnol.

24. Gall y ffactorau a ddefnyddir i bennu pris y llaeth gynnwys ystod o fetrigau preifat neu gyhoeddus.

    <u>Er enghraifft, gallai contractau nodi mai’r pris i’w dalu yw</u>: y Pris Llaeth Gwirioneddol Cyfatebol (AMPE), yr AMPE plws neu finws swm neu ganran benodol, neu i’w bennu yn unol â chyfuniad o AMPE a ffactorau eraill).

25. Gall contract nodi hefyd bod ffactorau penodol yn cael eu pwysoli'n drymach wrth bennu'r pris.

## Pan fydd pris amrywiol yn newid

26. Mae FDOM24 yn ei gwneud yn ofynnol i brisiau amrywiol gael eu pennu ar **adegau rhesymol a rheolaidd.** Mae'n rhaid i gontractau nodi'r telerau ar gyfer pryd y bydd newidiadau i brisiau amrywiol yn digwydd, na ddylai fod yn amlach na misol ond dim llai na phob 3 mis.
27. Ar ôl pennu'r pris, mae'r FDOM24 yn rhoi hawl i'r cynhyrchydd ofyn am esboniad ysgrifenedig o sut y pennwyd y pris. **Pan bennwyd y pris gan y prynwr,** mae'n rhaid i hyn gynnwys sut mae'r ffactorau a ystyriwyd gan y prynwr wedi rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt wedi dylanwadu ar y pris.
28. Mae'n rhaid i'r cynhyrchydd gyflwyno cais ysgrifenedig am esboniad ysgrifenedig i'r prynwr. Mae'n rhaid i'r prynwr ddarparu'r esboniad o fewn saith niwrnod i'r cais. Bydd ond yn bosibl i gynhyrchwyr wneud cais am yr esboniad ysgrifenedig hwn unwaith bob tro y pennir y pris.

## Dilysiad annibynnol ar gyfer pris amrywiol

29. Gwyddom y gall rhai o'r ffactorau a ddefnyddir gan brynwyr i bennu pris eu llaeth fod yn sensitif yn fasnachol, er enghraifft prisiau gwerthu ymlaen neu faint yr elw. Pan fydd hyn yn wir, mae'n bosibl na fydd prynwyr yn dymuno datgelu'r wybodaeth hon i'r cynhyrchydd.
30. Pan fydd y partïon wedi cytuno i ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol o'r fath i bennu pris y llaeth, mae'n rhaid i'r contract prynu llaeth gynnwys gweithdrefn lle gall cynhyrchwyr gyfeirio'r esboniad o sut y pennwyd y pris i drydydd parti annibynnol a fydd yn gallu dilysu bod y wybodaeth gyfrinachol yn gywir a'i bod yn cefnogi'r esboniad o'r pris a roddwyd. Mae hyn er mwyn sicrhau tryloywder a diogelu data eu prynwyr sy'n sensitif yn fasnachol yr un pryd.
31. Mae'n rhaid i'r prynwr gydweithredu gyda'r trydydd parti annibynnol a darparu'r cyfryw wybodaeth a dogfennaeth ag y mae'n gofyn yn rhesymol amdanynt.
32. Gall y person annibynnol fod yn unrhyw unigolyn neu sefydliad y bydd y ddau barti wedi'i gymeradwyo, er y byddem yn disgwyl iddynt fod yn broffesiynol ac yn meddu ar y profiad perthnasol a fyddai'n eu galluogi i ddilysu'r wybodaeth gyfrinachol, er enghraifft cyfrifwyr, cyfreithwyr neu ymgynghorwyr busnes.
33. Mae'n rhaid i'r contract pennu llaeth nodi hefyd sut y bydd costau'r person annibynnol yn cael eu dosrannu rhwng y partïon.

## Prisiau Haenog

34. Mae'r FDOM24 yn caniatáu prisio amrywiol a'r defnydd o brisiau llaeth gwahanol drwy gytundeb. Fodd bynnag, pan fydd cynhyrchydd **wedi'i**

**ymrwymo'n gytundebol i gyflenwi un prynwr yn unig (h.y. maent wedi ymrwymo i gytundeb unigryw),** mae FDOM24 yn gwahardd y defnydd o brisiau haenog **(h.y. prisiau sy'n newid yn seiliedig ar y cyfaint o laeth a gyflenwir).** Mae hyn yn golygu na ellir newid y pris i'w dalu am y llaeth o dan gontract prynu llaeth o'r fath ar sail a yw swm y llaeth a ddarperir gan y cynhyrchydd yn fwy na chyfaint penodol.

35. Yn y gorffennol bu'n bosibl i brynwr ymrwymo i gontract prynu llaeth unigryw gyda chynhyrchydd, lle byddai'r prynwr yn talu pris gwahanol am unrhyw symiau o laeth a gyflenwyd dros gyfaint penodol, ond gwaherddir y cynhyrchydd rhag cyflenwi eu llaeth i unrhyw un arall. O dan y FDOM24, ni chaniateir hyn mwyach. Yn hytrach, bydd contract prynu llaeth ond yn gallu darparu gwahanol brisiau am laeth a gyflenwir dros gyfaint penodedig, ar yr amod nad yw'r cynhyrchydd yn cael eu gwahardd rhag ymrwymo i gontractau prynu llaeth gyda phrynwyr eraill.
36. Caniateir bonysau neu gosbau sy'n seiliedig ar ffactorau eraill, er enghraifft cyfansoddion neu ansawdd llaeth.

## Esemptiadau

37. Nid yw'r gofynion i gynnwys pris sefydlog neu amrywiol mewn contract prynu llaeth yn berthnasol pan:
    a) bydd sefydliad cynhyrchu cydnabyddedig neu gymdeithas cyn-gychwn wedi negodi'r telerau sy'n berthnasol i bris y llaeth ar ran y cynhyrchydd, neu
    b) bydd gan y cynhyrchydd fuddiant perchnogaeth yn y prynwr ac mae gan y prynwr strwythur mewnol democrataidd sy'n cyflawni'r meini prawf yn FDOM24. Y meini prawf hynny yw bod yn rhaid bod gan y prynwr strwythur sefydliadol yn eu cyfansoddiad gyda chorff gwneud penderfyniadau sy'n:
        a. cynnwys mwyafrif o unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd gan yr aelodau cynhyrchu; ac
        b. sydd ag awdurdod gwneud penderfyniadau yn y pen draw mewn cysylltiad â chontractau i brynu llaeth.

## Cyfeintiau (Rhan 5 o’r FDOM24)

38. Mae FDOM24 yn cyflwyno rheolau ynglŷn â’r hyn y gall cynhyrchwyr a phrynwyr gytuno arno ynglŷn â’r cyfeintiau o laeth a gyflenwir. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y ddau barti sicrhau sefydlogrwydd i’w busnes, eu bod yn gallu cynllunio, a lleihau unrhyw wastraff.
39. Pan fydd contract prynu llaeth yn nodi bod yn rhaid i gynhyrchydd gyflenwi cyfaint sefydlog wedi’i bennu ymlaen llaw, mae’n rhaid iddo hefyd:
    a) Nodi’r cyfnod y mae’n rhaid cyflenwi’r cyfaint hwn. Ni all y cyfnod hwn fod yn hwy na 12 mis.
    b) Nodi’r cyfaint i’w ddarparu, gan gynnwys y cyfeintiau cyflenwi uchaf ac isaf derbyniol i’r cyfnod hwnnw.
40. Mae’n rhaid i’r contract hefyd nodi’r rhwymedïau sydd ar gael i’r prynwr pan na fydd y cyfaint o laeth a gyflenwir yn cyflawni’r cyfaint derbyniol. Pan fydd cyflenwad yn is na’r disgwyl, gallai fod sawl rheswm am hyn a gallai’r contract gynnwys gwahanol rwymedïau ar gyfer gwahano senarios.
41. **Contractau unigryw:** Ni all unrhyw gontract sy'n atal cynhyrchydd rhag ymrwymo i gontract prynu llaeth â phrynwr arall bennu bod y cynhyrchydd i gyflenwi cyfaint penodol o laeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi terfyn ar faint o laeth a gyflenwir o dan y contract. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gontract prynu llaeth unigryw ganiatáu i'r cynhyrchydd gyflenwi'r holl laeth a gynhyrchir i'r prynwr.

# Amrywiol (Rhan 6 o’r FDOM24)

## Casglu llaeth

42. O dan FDOM24, mae’n rhaid i’r contract prynu llaeth nodi’r trefniadau ar gyfer casglu llaeth.
43. Mae’n rhaid i’r contract prynu llaeth ddatgan y bydd y llaeth yn cael ei gasglu gan y cynhyrchydd gan, neu ar ran y prynwr. Nid oes angen i’r contract bennu pwy fydd yn casglu’r llaeth ar bob achlysur ond mae’n rhaid iddo ddarparu y bydd y prynwr neu berson sy’n gweithredu ar eu rhan yn gwneud hynny.
44. Yn ogystal, mae’n rhaid i’r contract nodi pryd a pha mor aml y bydd llaeth yn cael ei gasglu.

## Force Majeure

45. O dan y FDOM24, mae’n rhaid i bob contract prynu llaeth gynnwys darpariaeth sy’n nodi’r effaith ar y cynhyrchydd a’r prynwr pan fydd gweithredoedd, digwyddiadau neu amgylchiadau penodol yn digwydd, a oedd yn anrhagweladwy ac yn anorfod ac sy’n atal y naill barti neu’r llall rhag gallu cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y contract (digwyddiadau ‘Force Majeure’).
46. Mae’r gweithredoedd, digwyddiadau neu amgylchiadau penodol a fydd yn cynrychioli digwyddiad force majeure ym mhob contract prynu llaeth yn fater i’r partïon gytuno arnynt ac mae’n rhaid eu hysgrifennu yn y contract.
47. Gallai enghreifftiau gynnwys achosion o afiechydon difrifol ar fferm, digwyddiadau tywydd eithriadol neu drychinebau naturiol.

## Hysbysiadau o dan gontract prynu llaeth

48. Mae FDOM24 yn ei gwneud yn ofynnol bod contractau prynu llaeth yn nodi sut mae’n rhaid rhoi hysbysiadau o dan y contract. Rhaid i’r contract ddarparu bod yn rhaid i unrhyw hysbysiadau fod yn ysgrifenedig a’u bod yn cael eu hanfon naill ai drwy e-bost neu drwy ddull post sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r derbynnydd lofnodi ar ôl eu derbyn. Rhaid i’r contract ddarparu hefyd, pan fo’r hysbysiad yn cael ei anfon drwy’r post, bod rhaid iddo gael ei gyfeirio’n briodol a’i dalu ymlaen llaw.
49. Rhaid i’r contract ddarparu y bernir bod cyflwyno hysbysiad cydymffurfio yn dod i rym:
    - pan ddefnyddir e-bost, ar yr adeg y byddai’r hysbysiad yn cael ei gyflenwi wrth wneud defnydd arferol o’r gwasanaeth e-bost, neu,
    - pan ddefnyddir y post, ar yr adeg y byddai’r hysbysiad yn cael ei gyflenwi wrth wneud defnydd arferol o’r post.
50. Mae’n rhaid i’r contract nodi mai’r cyfeiriad ar gyfer gwasanaeth drwy’r post i’r partïon yw eu cyfeiriad busnes arferol oni fydd y parti yn darparu cyfeiriad

amgen. Os bydd cyfeiriad amgen i’w ddefnyddio, mae’n rhaid i hyn gael ei gynnwys yn y contract.

## Amrywio’r Telerau

51. Mae’n rhaid i gontract prynu llaeth ddarparu bod yn rhaid i unrhyw amrywiad i’w delerau gael eu cytuno’n **ysgrifenedig** rhwng y prynwr a’r cynhyrchydd neu, pan fydd y cynhyrchydd yn cael ei gynrychioli gan sefydliad cynhyrchu cydnabyddedig neu wasanaeth cyn-gychwyn, y sefydliad cynrychioli hwnnw.

52. Nid yw’r gofyniad hwn yn berthnasol pan fydd gan y cynhyrchydd fuddiant perchnogaeth yn y prynwr ac mae gan y prynwr strwythur mewnol democrataidd sy’n cyflawni’r meini prawf a nodir yn y FDOM24. Y meini prawf hynny yw bod yn rhaid bod gan y prynwr strwythur sefydliadol yn eu cyfansoddiad gyda chorff gwneud penderfyniadau sy’n:

    a) cynnwys mwyafrif o unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd gan yr aelodau cynhyrchu; ac

    b) sydd ag awdurdod gwneud penderfyniadau yn y pen draw mewn cysylltiad â chontractau i brynu llaeth.

## Datrys Anghydfod (Rhan 7 o FDOM24)

53. Mae'r FDOM24 yn ei gwneud yn ofynnol i weithdrefn datrys anghydfod gael ei chynnwys ym mhob contract sy'n nodi sut y gall cynhyrchydd wneud cwyn i'r prynwr mewn cysylltiad â'u contract prynu llaeth.

54. Mae'n rhaid i'r weithdrefn datrys anghydfod nodi:

   a) Bod yn rhaid i'r cynhyrchydd wneud y gŵyn i'r prynwr yn ysgrifenedig

   b) Manylion y person y dylid rhoi cwyn y cynhyrchydd iddynt.

   c) Ar ôl i'r prynwr dderbyn y gŵyn ysgrifenedig, y byddant yn ymchwilio ac yn cymryd pob cam rhesymol i ddatrys y gŵyn.

### Uwchgyfeirio anghydfod

55. Y gobaith yw y gellir datrys y mwyafrif o broblemau a allai godi mewn cysylltiad â chontractau prynu llaeth rhwng y partïon drwy'r gweithdrefnau datrys anghydfod a nodir yn y contractau.

56. Fodd bynnag, pan fydd anghydfod ynglŷn ag achos posibl o dorri rheolau FDOM24 sy'n parhau heb ei ddatrys ar ôl 28 diwrnod o gael ei godi gyda'r prynwr o dan y weithdrefn datrys anghydfod, gallai cynhyrchwyr gyfeirio'r gŵyn i Ddyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol ymchwilio iddi.

## Terfynu (Rhan 8 o FDOM24)

57. Mae'r FDOM24 yn darparu rheolau ynglŷn â'r darpariaethau ar derfynu y mae'n rhaid eu cynnwys mewn contractau prynu llaeth.

### Cyfnod ailfeddwl

58. O dan FDOM24, mae'n rhaid i bob contract prynu llaeth gynnwys cyfnod ailfeddwl 21 diwrnod pan fydd gan y cynhyrchydd yr hawl i derfynu'r contract heb unrhyw gosb neu atebolrwydd.
59. Mae'n rhaid i'r contract prynu llaeth ddarparu:
    a) y gall y cynhyrchydd derfynu'r contract prynu llaeth ar unwaith ar unrhyw bwynt yn ystod y 21 diwrnod cyntaf o'r dyddiad y lluniwyd y contract.
    b) nad oes unrhyw gosb neu atebolrwydd am derfynu'r contract prynu llaeth yn ystod y cyfnod hwn.
    c) nad yw'n ofynnol i'r cynhyrchydd roi unrhyw reswm dros derfynu'r contract prynu llaeth yn ystod y cyfnod hwn.

### Terfynu contractau bytholwyrdd neu sefydlog o 12 mis neu fwy

60. Mae'n rhaid i bob contract prynu llaeth, sy'n fytholwyrdd neu sydd â chyfnod sefydlog o fwy na 12 mis, nodi proses y gellir terfynu'r contract yn unol â hi (y 'broses derfynu').

### Terfyniad gan y prynwr

61. Mae'n rhaid i'r broses derfynu ddarparu bod yn rhaid i'r prynwr roi o leiaf 12 mis o rybudd i derfynu'r contract prynu llaeth heb:
    a) caniatâd y cynhyrchydd i'r terfyniad; neu
    b) bod y cynhyrchydd wedi torri'r contract prynu llaeth yn sylweddol.

### Terfyniad gan y cynhyrchydd

62. Rhaid i'r broses derfynu beidio â'i gwneud yn ofynnol i'r cynhyrchydd roi mwy na 12 mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract prynu llaeth.

### Terfyniad ar gyfer contractau sefydlog o lai na 12 mis

63. Ni ddylai contract prynu llaeth â hyd sefydlog o 12 mis neu lai wneud unrhyw ddarpariaethau sy'n caniatáu i'r prynwr roi llai na 12 mis o rybudd i derfynu'r contract cyn diwedd y tymor sefydlog heb:
    a) cydsyniad y cynhyrchydd i'r terfyniad; neu
    b) bod y cynhyrchydd wedi torri'r contract prynu llaeth yn sylweddol.

64. Nid yw hyn yn effeithio ar y gallu i derfynu'r contract prynu llaeth ar ôl i'r cyfnod tymor sefydlog ddod i ben.

## Terfynu ar Unwaith

65. Mae'n rhaid i bob contract prynu llaeth ddarparu hefyd y gall y cynhyrchydd derfynu'r contract prynu llaeth ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r prynwr:

    a) Pan fo'r prynwr yn ansolfent.

    b) O fewn 14 diwrnod i'r cynhyrchydd ddod yn ymwybodol bod y prynwr wedi torri'r contract yn sylweddol.

    c) Pan fydd y prynwr yn methu gwneud taliad yn unol â'r contract prynu llaeth ac mae'r cynhyrchydd yn rhoi hysbysiad i'r prynwr ynghylch y methiant hwnnw; o fewn 21 diwrnod o roi'r hysbysiad hwnnw os na thalwyd y taliad o fewn 7 niwrnod i'r un hysbysiad hwnnw.

    ch) O fewn 14 diwrnod o'r trydydd achlysur pan fydd y prynwr yn methu gwneud taliad yn unol â'r contract prynu llaeth.

    d) O fewn 14 diwrnod i farwolaeth y person a nodwyd yn y contract prynu llaeth fel rhywun y mae eu marwolaeth yn galluogi'r contract prynu llaeth i gael ei derfynu.

    dd) O fewn 14 diwrnod i osod gofyniad ar y prynwr i dalu cosb sifil neu iawndal yn unol â FDOM24.

## Darpariaethau ychwanegol

66. Mae'r FDOM24 yn gwahardd newidiadau i'r dull prisio neu'r pris a delir am laeth a wneir gan y prynwr oherwydd bod hysbysiad terfynu yn cael e gyflwyno gan y cynhyrchydd.

67. Yn ogystal, mae'r FDOM24 yn gwahardd i unrhyw reol gael ei chynnwys mewn contract prynu llaeth y gellir ond cyflwyno'r hysbysiad terfynu ar ddiwrnod penodol.

<u>Pwysig:</u>

Yn unol â'r cyngor a gynigiwyd yn gynharach yn y canllaw hwn, ac yn unol â'r dull gweithredu yr awgrymwn y dylai'r busnesau ei ddilyn bob amser, dylai'r ddau barti geisio cyngor cyfreithiol annibynnol o ran terfynu eu contractau prynu llaeth.

# Rhestr Termau

Yn y canllaw hwn mae -

- "llaeth" yn golygu llaeth buwch;
- "cyfansoddyn llaeth" yn golygu sylwedd a gynhwysir yn, neu y gellir ei echdynnu o, laeth;
- "contract prynu llaeth" yn golygu contract a wneir gan brynwr i brynu llaeth gan gynhyrchydd;
- "y partïon" mewn cysylltiad â chontract prynu llaeth, yn golygu'r prynwr a'r cynhyrchydd sy'n barti i'r contract;
- "prynwr" yn golygu, mewn cysylltiad â phrynu llaeth, person sy'n prynu llaeth wrth redeg busnes sy'n cynnwys prynu cynhyrchion o'r math hwnnw.
- "cynhyrchydd" yn golygu gwerthwr cymwys o dan adran 29(3)(b)(i) Deddf Amaethyddiaeth 2020;
- "contract cyfnod sefydlog" yn golygu contract prynu llaeth a fydd yn terfynu ar ddiwedd cyfnod penodol neu ar ddyddiad penodol.
- "pris sefydlog" yn bris, a nodir yn y contract prynu llaeth, a fynegir fesul uned o laeth neu gyfansoddyn llaeth a delir gan y prynwr i'r cynhyrchydd am laeth a gyflenwir o dan y contract.
- "contract bytholwyrdd" yn golygu contract prynu llaeth a fydd yn parhau nes y bydd un o'r partïon yn ei derfynu.
- "pris amrywiol" yn golygu pris fesul uned o laeth neu gyfansoddyn llaeth nad yw'n cael ei bennu ar y pwynt y gwneir y contract prynu llaeth ond mae'n cael ei bennu yn unol â, neu gan y prynwr, gan gyfeirio at ffactorau a nodir yn y contract prynu llaeth.
- "strwythur mewnol democrataidd," mewn cysylltiad â phrynwr, yn golygu strwythur sefydliadol—

(a) sydd wedi'i sefydlu yng nghyfansoddiad y prynwr; ac

(b) sydd â chorff gwneud penderfyniadau o'i fewn—

(i) y mae ei aelodaeth yn cynnwys mwyafrif o unigolion sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd gan aelodau cynhyrchu'r prynwr; ac

(ii) sydd ag awdurdod gwneud penderfyniadau yn y pen draw mewn cysylltiad â chontractau i brynu llaeth;

- “aelod cynhyrchu” yn golygu cynhyrchydd sydd â buddiant perchnogaeth yn y prynwr dan sylw;
- “sefydliad cynrychioli” yn golygu—

(a) sefydliad cynhyrchu neu gymdeithas o sefydliadau cynhyrchu a gydnabyddir o dan Bennod 3 Teitl 2 Rhan 2 Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a Chyngor 17 Rhagfyr 2013(**3**) gan sefydlu trefn gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol; neu

(b) cymdeithas cyn-gychwyn, o fewn ystyr adran 150 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014(**4**), nad yw’n cyflawni gweithgareddau prosesu(**5**);